



Swydd: CYDLYNYDD CELF A CHREFFT
Adran: Rhaglennu
Yn atebol i'r: Cyfarwyddwr Artistig

Dyddiad cau: 12:00 (hanner dydd) – dydd Llun, 14.05.18

Cyflog: £16,841- £22,400
Oriau: 37 awr yr wythnos, yn bennaf o Ddydd Llun i Ddydd Gwener gyda'r hyblygrwydd i weithio penwythnosau ar adegau yn hanfodol

Os oes angen gwybodaeth bellach neu sgwrs anffurfiol:

Nici Beech 01286 685 204 neu Iona Davies 01286 685 218
post@galericaernarfon.com

Manylion y Swydd:

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gynllunio, cydlynu a gweithredu arddangosfeydd a gwerthiant celf a chrefft uchelgeisiol ynghyd a rhaglen ddyfeisgar o weithgareddau celfyddydol gan annog croesdoriad eang o'r gymuned i gymryd rhan.

Dyletswyddau:

- Cydlynu rhaglen arddangosfeydd y *Safle Celf / Y Wal / Cywrain* ac eraill mewn cydweithrediad â'r panel celf.
- Paratoi deunydd i hyrwyddo'r arddangosfeydd megis labeli, cyflwyniadau, manylion yr artistiaid i gyd fynd â'r gweithiau
- Trafod a gweinyddu cytundebau artistiaid gan gynnwys rheoli gwerthiant a lefel stoc y gweithiau sydd ar werth mewn arddangosfeydd a mannau arwerthu eraill a reolir gan y Cwmni.
- Cynllunio a datblygu gweithdai a digwyddiadau i'w cynnwys yn y rhaglen mewn cydweithrediad gyda'r tîm rhaglennu
- Ymgynghori a chydweithio ar raglen o weithdai datblygu celf *Portffolio a Codi'r Bar* i ddisgyblion ysgol gyda phartneriaid eraill.
- Creu a chynnal bas-data o artistiaid lleol a pherfformwyr i arwain a chydweithio mewn gweithdai a diwyddiadau.

- Cydweithio efo'r Cydlynnydd Cyfranogi Creadigol i weithredu'r rhaglen gymunedol
- Bod yn gyfrifol am godi arian a rheoli cyllid ar gyfer digwyddiadau cymunedol, gweithdai a'r deunyddau mewn cydweithrediad gyda'r Cyfarwyddwr Artistig
- Archwilio posibiliadau o weithio gyda chyrff cymunedol gan gynnwys y rhai sydd heb weithio hefo'r Cwmni o'r blaen
- Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig i wneud ceisiadau am nawdd a grantiau ac adnabod pob cyfle posib i ymchwilio i mewn i ariannu digwyddiadau a gweithdai.
- Cynrychioli'r Cwmni mewn ffordd cyfeillgar a phroffesiynol
- Cyflwyno agwedd bositif o'u hunain a'r Cwmni ar bob achlysur
- Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol yn ôl y galw

Manylion y Person

Rydym yn chwilio am berson egniol, trefnus a chreadigol sy'n gallu cyd-dynnu yn dda gyda phlant a phobl o bob oed. Mi fyddwch yn berson hyderus, sydd yn cyfathrebu'n dda, â chroesdoriad eang o sgiliau a phrofiadau, yn fwrlwm o syniadau ac yn gallu gweithio yn annibynol ac fel rhan o dîm.

Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg yn ogystal â'r hyblygrwydd i amrywio oriau gwaith a gweithio ar benwythnosau pan fo'r angen yn hanfodol.

Manteisiol:

Profiad o drefnu a chynnal gweithdai creadigol

Cefndir ym maes celf a churadu arddangosfeydd celf

Sgiliau dylunio

Trwydded yrru llawn a glân

Dealltwriaeth o'r oblygiadau o weithio mewn Cwmni masnachol

Deiliad Tystysgrif Cymorth Cyntaf

Ymwybyddiaeth o reolau Polisi Amddiffyn Plant

Bydd angen i ddeiliad y swydd yma gael Tystysgrif Datgelu a Gwahardd foddhaol (gallwn drefnu hyn)

Ebrill 2018



galericaernarfon.com
 Twitter: @_Galeri_
 Facebook: /GaleriCaernarfon